

CABINET
18 MAI 2021

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol trwy Webex ar ddydd Mawrth 18 Mai, 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Arloesi ac Adfywio ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd: Patrick Heesom.

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd Derek Butler

Bu i'r aelodau longyfarch y Cynghorydd Carolyn Thomas a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn yr etholiad diweddar fel Aelod o'r Senedd i Ogledd Cymru. Hefyd cafodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin ei longyfarch am fod yn llwyddiannus yn yr etholiad i ddod yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

127. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

128. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2021 eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts y bydd newid i drefn y rhaglen, gan roi ystyriaeth i adroddiadau Ffioedd Meysydd Parcio a Chynllun Rheoli Asedau Priffyrdd cyn eitemau eraill o fusnes.

129. FFIOEDD MAES PARCIO

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ac eglurodd bod yr atal dros dro cyfredol o ffioedd maes parcio yng nghanol y dref wedi ei weithredu gyda'r bwriad o helpu busnesau canol tref ffynnu ar ôl pandemig Covid-19.

Mae'r maes parcio yn Nhalacre yn cael ei ystyried fel maes parcio 'cyrchfan terfyn' a roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i adfer y ffoedd yn y maes parcio hwn.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno trefn codi tâl yn y maes parcio a theithio newydd sydd wedi'i adeiladu ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Roedd y Cynghorydd Banks yn cefnogi'r adroddiad, yn ogystal â'r Cynghorydd Jones a ddywedodd y bydd hyn yn helpu â phroblemau traffig ym Mharthau 1, 2 a 3 ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

PENDERFYNWYD:

- (a) I gymeradwyo ailgyflwyno ffoedd maes parcio ym maes parcio Talacre: a
- (b) Cymeradwyo cyflwyno'r trefn codi tal maes parcio a theithio ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

130. CYNLLUN RHEOLI ASED AU PRIFFYRDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad ac eglurodd mai'r rhwydwaith priffyrdd yw isadeiledd asedau mwyaf gwerthfawr y Cyngor, gydag asedau lonydd cerbydau a throedffyrdd werth dros £1 biliwn. Roedd cyflwr diogel a defnyddiadwy y rhwydwaith yn hanfodol i gynnal cysylltedd economaidd a chymdeithasol, y ddau o fewn Sir y Fflint a gyda'r rhanbarth ehangach, a roedd y fframwaith Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn darparu egwyddorion i reoli'r rhwydwaith, adnabod pwysigrwydd isadeiledd priffordd i gefnogi nifer o amcanion allweddol y Cyngor.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar ddatblygiad y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor, a roedd yn egluro sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r egwyddorion y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd i arwain y strategaeth i reoli a chynnal isadeiledd priffyrdd.

Eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) bod dyraniad cyllid yn cael ei wneud ar sail y meysydd sydd ei angen fwyaf, a roedd blaenoriaethau wedi newid oherwydd y risgiau i'r rhwydwaith a oedd wedi cael eu nodi yn ystod asesiadau gan gydlynwyr ardaloedd.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi yr wythnos flaenorol, lle chafwyd drafodaeth ar gynllun peilot a gyflawnwyd yn defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i gymryd lle yr ardaloedd bach o asffalt. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r treial a gwnaethpwyd gais i gael treial ehangach. Bydd gwaith yn cael ei gyflawni i adnabod unrhyw safleoedd posibl ar gyfer treialon o'r fath.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod cynnwys yr adroddiad, ac adolygiad y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cael ei nodi;

- (b) Bod y trefniadau cyfredol a chamau gweithredu'r portffolio i gynnal y rhwydwaith priffordd yn cael ei nodi; a
- (c) Bod y polisi diwygiedig ar gyfer arolygon Diogelwch Priffyrdd a Meysydd Parcio, Meini Prawf Ymyrraeth ac Amseroedd Ymateb i gynnwys ymagwedd ddiwygiedig i arolygon strwythurau'r priffyrdd yn cael ei gymeradwyo.

131. CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd bod Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017/23 yn cael ei fabwysiadu gyda'r pwrpas o osod y prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol cyfredol. Roedd y cynllun yn amodol i adolygiad blynyddol.

Roedd strwythur a chynnwys y Cynllun ar gyfer 2021/22 wedi cael ei adolygu a'i adfywio, ac yn ystyried adferiad parhaus yn ychwanegol i'r amcanion strategol hirdymor.

Cyhoeddwyd Cynllun y Cyngor mewn dwy ddogfen. Byddai Rhan 1 yn gosod y bwriad, a Rhan 2 yn gosod y risgiau, y mesuryddion perfformiad, y targedau a'r cerrig milltir y byddai cyflawniadau yn cael eu mesur a'u gwerthuso'n eu herbyn.

Cafodd y fframwaith ei greu o amgylch chwe thema:

- Yr Economi;
- Addysg a Sgiliau;
- Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd;
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch;
- Lles Personol a Chymunedol; a
- Tlodi

Eglurodd y Prif Weithredwr bod datganiad strategol yn mynd gyda phob un o'r chwe thema a oedd yn arwain at amcanion llesiant. Cafodd y themâu eu mapio yn erbyn y Pwyllgorau Craffu a Throsolwg i adrodd ac atebolrwydd. Y Cabinet fydd yn gyfrifol am gyflawni'r Cynllun. Roedd Rhan 1 wedi'i rannu gyda'r Pwyllgorau Craffu a Throsolwg i'w adolygu ac i gael sylwadau; nid oedd angen newid sylweddol i Rhan 1 gan fod y Pwyllgorau yn gefnogol, Roedd Rhan 2 wedi'i gymeradwyo i'r argymell gyda hyder bod yr Aelodau yn cefnogi Rhan 1 fel uwch-strwythur y Cynllun.

Bydd Cynllun terfynol y Cyngor ar gael ar y wefan cyn diwedd mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod Rhan 1 Cynllun y Cyngor 2021/22 yn ei ffurf terfynol yn cael ei gymeradwyo i'w argymell i'r Cyngor; a
- (b) Bod cynnwys Rhan 2 Cynllun y Cyngor 2021/22 yn cael ei gymeradwyo yn ychwanegol i Rhan 1 i'w argymell i'r Cyngor.

132. ADFYWIO CANOL TREFI

Cyflwynodd Rheolwr Arloesi ac Adfywio yr adroddiad ac eglurodd bod canol trefi llai ar draws y DU wedi bod yn wynebu amgylchiadau economaidd heriol ers blynyddoedd yn sgil y newid i ymddygiad cwsmeriaid. Mae'r pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r tueddiadau hyn, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i ddeall yr effaith hirdymor.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddiariad ar y cyd-destun strategol ar gyfer adfywio canol tref, y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i'w gefnogi a'r rhaglenni sydd ar waith yn Sir y Fflint. Cynigiodd yr adroddiad bwyslais cynyddol ar ymyrraeth i greu rhagor o ddefnydd cynaliadwy o eiddo o fewn canol trefi.

Roedd cynnydd ar ffocws Llywodraeth Cymru ar eiddo canol tref wag gydag ail-ffocws ar eu rhaglen benthyciad, gan annog Awdurdodau Lleol i ddefnyddio eu pwerau gorfodi yn fwy i ddod â rhagor o unedau yn ôl i gael eu defnyddio. Byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi pob ardal i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith hwnnw.

Er mwyn darparu'r rhaglen yn effeithiol, byddai'n rhaid i ragor o adnoddau fod ar gael. Rhagwelwyd, yn y cyfnod byr, y byddai angen rôl rheolwr profiadol a chymwys i yrru'r rhaglen adfywio ymlaen gyda chefnogaeth dan hyfforddiant i'r tîm i ryddhau amser i gyflawni'r prosiect. Amlinellwyd y amcan-gost referniw blynyddol yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Amgylchedd ac Economi lle gafodd ei gefnogi'n llawn.

Croesawodd y Cyngorydd Roberts yr adroddiad a rhoddodd sylw ar waith adfywio llwyddiannus a oedd wedi'i gyflawni yn Fflint a Threffynnon, ac roedd yn falch o nodi pa mor fywiog oedd yr Wyddgrug. Roedd trafodaethau yn cael eu cynnal ar Ganol Tref Bwcle ac roedd uwchgynllun yn cael ei ddatblygu ar gyfer Shotton. Yn ogystal byddai angen datblygu uwchgynllun ar gyfer Cei Connah. Yn ychwanegol, roedd angen ystyried cymunedau llai.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai angen trafodaeth ar wahân ar sut y byddai'r Cyngor yn darparu adnoddau sydd wedi eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Yn ogystal croesawodd y Cyngorydd Jones yr adroddiad a gofynnodd a fyddai modd cynnwys cyfeiriad at bobl gydag anawsterau dysgu ac awtistiaeth ym mharagraff 1.14.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer adfywio canol tref a gytunwyd yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mawrth 2020;
- (b) Bod goblygiadau o ran adnoddau o gyflawni'r rhaglen yn cael ei nodi, a byddant yn cael eu hystyried i gael eu cynnwys yn natblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Rhaglen Gyfalaf; a

- (c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Datblygu Economaidd i wneud cynnig am arian allanol wrth iddo ddod ar gael i gefnogi'r dulliau o adfywio canol trefi a nodir yn yr adroddiad.

133. GRANT CYLLID CYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO YCHWANEGOL I YSGOLION LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad ac eglurodd bod y Cyngor yn cael cyllid cynnal a chadw ac atgyweirio ychwanegol i ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y grant, sydd ar sail fformiwla, yn £2.526,501 ac ar gyfer prosiectau cynnal a chadw cyfalaf o fewn ysgolion yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) bod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i adolygu a chytuno ar raglen drafft fel y gellir symud prosiectau unigol gydag hwylustod. Roedd y rhaglen ddrafft wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Mae dau brosiect wedi'i enwebu yn Ysgol Castell Alun. Roedd y cyntaf i gymryd lle y Llain Pob Tywydd gan nad oes modd ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Roedd ailosod Llain Pob Tywydd yn hanfodol i ddarparu cwricwlwm Addysg Gorfforol, yn arbennig yn ystod misoedd y Gaeaf. Yr ail oedd ailwampio yr ardal gerddoriaeth a oedd yn etifeddiaeth i'r prosiect buddsoddi cyfalaf presennol yn yr ysgol. Roedd rhaid cyflawni gwaith helaeth na ragwelyd i do yr ardal gerddoriaeth i'w wneud yn ddiogel ac i sicrhau ei fod yn dal dŵr. Wrth wneud hyn, nid oedd cyllideb y prosiect yn ddigonol i gwblhau'r cynnig i ailwampio'r ardal gerddoriaeth oddi tanodd. Roedd darpariaeth wedi'i wneud i gytundeb adeiladu i ychwanegu'r eitemau o bydd cyllid a chymeradwyaeth yn cael ei ganiatáu. Wrth wneud hynny roedd arbedion effeithlonrwydd a chostau tendro a rhagarweiniol.

Rhoddodd y Prif Swyddog ddiweddariad ar y sefyllfa yng Nghanolfan Enfys lle roedd gwall ar y to, a llifogydd wedi effeithio ar Ysgol Gynradd Queensferry.

PENDERFYNWYD:

Bod y rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion yn cael ei chymeradwyo.

134. DIWEDDARIAD AROSFA

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eglurodd bod Arosfa yn wasanaeth sefydledig sy'n darparu gwyliau byr dymor a seibiant ar gyfer plant gydag anabledau. Cafodd adain chwith nad oedd yn cael ei ddefnyddio yn Arosfa ei ailwampio i ddarparu dau le ychwanegol yn y cyfleuster, a roedd y llefydd hyn yn rhoi lle i hyd at bedwar o blant gan ddefnyddio modelau gofal hyblyg a gofal a rennir.

Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y gwasanaeth ychwanegol yn ychwanegiad i'r darpariaeth seibiant byr cyfredol ar

gyfer hyd at dri o blant ar unrhyw adeg. Gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau yn galluogi'r Cyngor i gefnogi uchafswm o bedwar o blant ar un tro.

Bydd y ddarpariaeth o ddau le ychwanegol ar gyfer seibiant gofal a rennir yn rhan o fwriad strategol y Cyngor i leihau dibyniaeth ar Leoliadau drud y Tu Allan i'r Sir, a byddai'n galluogi Sir y Fflint i gefnogi plant a phobl ifanc o fewn y sir. Byddai'n cynyddu'r cynhwysedd cyfredol sydd gan Sir y Fflint a mwy o ddarpariaeth gofal seibiant o fewn gweledigaeth yr uchelgais strategol.

PENDERFYNWYD:

I gydnabod y cynnydd a wnaethpwyd yn Arosfa, a'r cyfle i ddarparu cefnogaeth hyblyg ychwanegol ar gyfer hyd at bedwar o blant a'u teuluoedd, gyda'r bwriad o gadw teuluoedd gyda'i gilydd ac yn agosach i'w cartrefi, ac i gael cefnogaeth.

135. CYDWEITHIO RHWNG AWDURDODAU I REOLI'R CYFLENWAD O FWYNAU AGREGAU YN IS RANBARTH GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ac eglurodd bod yr Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh2) yn datgan, lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu bodloni eu cyfran ddangosol unigol i ddarparu mwynau agregau, fod angen i'r holl awdurdodau lleol o fewn yr is-ranbarth hwnnw gydweithio a chydweithredu er mwyn sicrhau bod cyfran gyffredinol yr is-ranbarth yn parhau i gael ei bodloni, i ddarparu cyflenwad cyson o fwynau agregau ar draws yr is-ranbarth.

Dylid cytuno ar gydweithio rhwng awdurdodau drwy Datganiad Cydweithio Is-ranbarth a gytunwyd gan bob awdurdod lleol o fewn yr ardal Is-ranbarth, a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer gwneud polisi Cynllun Datblygu Lleol ac ystyriaeth cynllunio deunydd mewn penderfyniadau rheoli datblygiadau gan barchu'r angen Is-Ranbarthol i gydgasglu mwynau yn yr Is-Ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru.

Byddai cymeradwyo'r ddogfen gan y tri awdurdod lleol yn yr is-ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru yn dangos bod yr awdurdodau wedi ymrwmo i gydweithio rhwng awdurdodau gan ymwneud â chyflenwad o fwynau agregau yn unol â'r ffigyrau dosrannu is-ranbarth ar gyfer tywod a cherrig mân, a cherrig wedi eu malu fel y nodir yn RTS2.

Cafodd ei ystyried yn y cyfarfod o'r Grŵp Strategaeth Cynllunio ar 8 Ebrill 2021 lle cafodd y SSRC drafft diwygiedig ei ardystio. Roedd ymgynghoriad wedi'i gynnal gydag awdurdodau partner sef Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn cymeradwyo'r SSRC drafft.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Datganiad o Gydweithio Is-Ranbarthol (Fersiwn3, Ebrill 2021 - Atodiad 2) yn cael ei gymeradwyo, a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio i'w ystyried fel rhan o'r Archwiliad Cyhoeddus i Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint; a

- (b) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) mewn perthynas a diwygiadau ansylweddol, i'r Datganiad o Gydweithio Is-Ranbarthol drafft os bydd yr angen yn codi o ganlyniad i argymhellion gan Gyngor Sir Ddinbych neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dilyn cymeradwyaeth o'r adroddiad.

136. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

Tai ac Asedau

- **Trosglwyddiad Ased Cymunedol, Hen Faes Chwarae Ysgol Llanfynydd, Llanfynydd**
Trosglwyddo'r hen Faes Chwarae Ysgol Llanfynydd, Llanfynydd.
- **Lawnt Fowlio Bagillt, Highfield Road, Bagillt**
I ddatgan yn ffurfiol gwarged i ofynion i'r eiddo a adnabyddir fel Lawnt Fowlio Bagillt, Highfield Road, Bagillt.
- **Hen Bafiliwn, Fron Park Road, Treffynnon (ger y cyrtiau tenis)**
I ddatgan yn ffurfiol nad oes angen yr eiddo a adnabyddir fel yr Hen Bafiliwn, Fron Park Road, Treffynnon.
- **Canolfan Gymunedol New Brighton, Moel Fammau Road, New Brighton**
I ddatgan yn ffurfiol nad oes angen yr eiddo a adnabyddir fel Canolfan Gymunedol New Brighton, Moel Fammau Road, New Brighton er mwyn trosglwyddo'r ased fel Trosglwyddiad Ased Cymunedol.
- **Gordaliadau Budd-dal Tai**
Cais i ddiddymu Gor-daliad Budd-Dal Tai o £10,901.96.
- **Rhent y Cyngor – Cais i Ddileu Ôl-ddyledion Tenantiaeth**
Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (adran 5.2) yn nodi bod dyledion drwg a rhai na ellir eu hadennill sydd werth dros £5,000 yn cael eu hystyried i gael eu dileu ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol.

Roedd y penderfyniad hwn yn ymwneud â dileu ôl-ddyledion tenant oedd yn destun Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled. Mae ôl-ddyledion rhent o £6,210.08 wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled na fyddai modd eu hadennill bellach o ganlyniad i roi'r Gorchymyn.
- **Dileu Trethi Busnes**
Mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (adran 9.6 - Incwm a Gwariant) yn amodi y dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol/Swyddog Adran 151 am unrhyw ddyled unigol sydd werth rhwng £5,000 a £25,000, er mwyn ystyried ei dileu, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau.

Mae'r atodlen sydd wedi'i amgáu i'r adroddiad, a oedd yn crynhoi yn ôl categori diddymu, yn cynnwys dau gyfrif Cyfradd Busnes sy'n dod i £33,931.02 lle mae dyled gyffredinol y cwmni yn fwy na £5,000. Argymhellir diddymu'r dyledion hyn gan nad yw'r cwmnïau yn masnachu neu'n amodol i gael eu diddymu.

Addysg ac Ieuenctid

- **Llywodraethwyr ysgol a benodir gan awdurdodau lleol**
Penodi cynrychiolwyr Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar gyfrif llywodraethu ysgolion yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

137. CYMERADWYO COSTAU AR GYFER CYNLLUN TAI NEWYDD YN PARK LANE TREFFYNNON

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddatblygu pedwar cartref Rhent Cymdeithasol newydd yn Park Lane, Treffynnon.

Roedd yr adroddiad a'r atodiadau yn nodi gwybodaeth am brynu'r eiddo, gan gynnwys y lleoliad, mathau arfaethedig o eiddo, dyluniad a chynllun a'r costau adeiladu disgwylidig.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo datblygu pedwar o dai Rhent Cymdeithasol yn Park Lane, Treffynnon; a
- (b) Bod y defnydd o fenthyca darbodus hyd at y gwerth a nodir yn yr adroddiad (yn dibynnu ar gymeradwyaeth a dilysu terfynol) i ariannu'r datblygiad arfaethedig yn y lleoliad yn cael ei gefnogi;

138. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.20 a.m.)

.....
Cadeirydd